

Treialu'r rhaglen aml- asiantaethol Arweinwyr Ymarfer Cam-drin Plant yn Rhywiol yng Nghymru

Adroddiad dysgu: Crynodeb gweithredol

Ionawr 2022

Nod y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol yw gwreiddio ei holl waith yn y dystiolaeth orau sydd ar gael. Ar gyfer ein holl gyrsiau a rhaglenni hyfforddiant, mae hyn yn dechrau gyda datblygiad yr hyfforddiant ac adolygwn y cynnwys yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r ymchwil a'r ymarfer diweddaraf. Casglwn adborth yn rheolaidd gan y rhai sy'n cymryd rhan yn yr hyfforddiant, a ddefnyddir i fyfrio a gwella'n barhaus. Pan fyddwn yn treialu neu beilota cwrs newydd, neu'n ei gynig i grŵp newydd, byddwn weithiau'n casglu mwy o ddata a chyhoeddi adroddiad. Mae ein hadroddiad dysgu'n cynnwys adborth gan gyfranogwyr ac mae'r adroddiadau gwerthuso'n cyfuno mathau eraill o dystiolaeth, fel cyfweliadau â rheolwyr y cyfranogwyr.

Crynodeb gweithredol

Rhwng Hydref 2020 a Mawrth 2021, treialodd y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (y Ganolfan CPRh) raglen aml-asiantaethol 'Arweinwyr Ymarfer Cam-drin Plant yn Rhywiol' mewn dwy ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Y nod oedd cynorthwyo nifer fach o weithwyr proffesiynol ar draws gwahanol asiantaethau i ddatblygu eu dealltwriaeth, sgiliau a'u hyder mewn adnabod ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol, a'u helpu i wella'r ymarfer yn yr asiantaethau hynny drwy rannu eu dysgu.

Roedd y rhaglen yn cynnwys 10 sesiwn undydd wedi eu darparu ar-lein. Roedd y boreau'n cynnwys addysgu ffurfiol a'r prynhawniau'n canolbwyntio ar drafod achosion drwy fyfyrto.

Casglwyd yr adborth ar gyfer yr adroddiad dysgu hwn yn syth ar ôl i'r rhaglen ddod i ben: Roedd 34 o'r 46 cyfranogwr yn y rhaglen wedi cwblhau arolwg ar-lein, a 28 wedi mynychu grwpiau ffocws. Roedd pedwar o reolwyr llinell y cyfranogwyr wedi rhoi adborth ychwanegol drwy arolwg gwahanol.

Dywedodd y rhai wnaeth roi adborth fod y rhaglen wedi eu helpu i wella eu sgiliau a'u gwybodaeth am wahanol faterion yn ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol; roedd hyd yn oed y rhai a ddywedodd nad oeddent wedi dysgu gymaint, oherwydd bod ganddynt eisoes wybodaeth a phrofiad helaeth cyn y rhaglen, yn teimlo'n fwy hyderus am weithio ar achosion hysbys neu gydag amheuaeth o gam-drin plant yn rhywiol.

Dywedodd y rhai wnaeth ymateb fod yr hyfforddiant wedi taflu golau newydd a gwneud iddynt herio a myfyrto ar eu hymarfer presennol, gyda nifer yn tynnu sylw at newidiadau penodol a wnaethant i'w hymarfer. Dywedodd y rhan fwyaf eu bod wedi rhannu eu dysgu ag eraill, o fewn a'r tu allan i'w hasiantaethau. Roedd rhai enghreifftiau'n cynnwys:

- rhannu syniadau ar gyfer datblygu a gweithio yn y dyfodol gyda thîm diogelu a phartneriaid eraill
- rhoi cyflwyniadau i gyd-blismyn
- sefydlu tasgluoedd i hyrwyddo'r dysgu a chynnig gwasanaeth ymgynghori i rai sydd angen cymorth arnynt i ddelio ag achosion cam-drin plant yn rhywiol
- cynghori cydweithwyr y dylai asiantaethau eraill barhau i weithio gyda phlant yn ystod ymchwiliad gan yr heddlu
- darparu hyfforddiant i'w tîm ar ymddygiad rhywiol niweidiol
- rhannu dysgu gyda chydweithwyr ar arwyddion cam-drin plant yn rhywiol.

Roedd fformat ar-lein yr hyfforddiant wedi'i dderbyn yn dda ar y cyfan; roedd yr ymatebwyr yn deall y byddai cyfarfodydd wyneb yn wyneb wedi bod yn amhosib pan oedd cyfyngiadau Covid mewn grym a dywedodd rai bod yn well ganddynt fformat ar-lein beth bynnag. Roeddent yn gwerthfawrogi'r dulliau dysgu (fel y cyflwyniadau a'r ystafelloedd gweithdai) a ddefnyddiwyd gan ddweud bod yr hyfforddwyr yn wybodus a chefnogol. Roedd yr ymatebwyr wedi croesawu agwedd aml-asiantaethol yr hyfforddiant gan ddweud ei bod yn ddefnyddiol clywed am bersbectif eraill a dysgu mwy am rolau asiantaethau eraill mewn ymateb i gam-drin plant yn rhywiol.

Tîm Ymchwil a Gwerthuso

Canolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol

Gellir lawrlwytho fersiwn Saesneg o'r adroddiad cyflawn yn www.csacentre.org.uk/training/learning-and-evaluation/

Hoffem glywed gennych. Os hoffech ddysgu mwy am ein hyfforddiant, ein llwyddiannau a'n dysgu hanesyddol, ein rhaglen newydd neu am ein pecynnau pwrpasol, e-bostiwch ni ar info@csacentre.org.uk